

Tîm Caerffili

YN WELL GYDA'N GILYDD

Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu
2020-2025



TRAFODAETH CAERFFILI
THE CAERPHILLY CONVERSATION



Cynnwys

Cyflwyniad	3
Ar gyfer pwy mae'r fframwaith hwn?	3
Pwrpas	4
Cysylltiadau â'r Strategaeth:	
Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu 2020-2025	4
<i>Tîm Caerffili - Yn Well Gyda'n Gilydd</i>	5
Beth ydyn ni'n ei olygu wrth Ymgysylltu:	6
Dylunio'r modd rydym yn ymgysylltu - a oes angen i mi ymgysylltu, ymgynghori neu wneud rhywbeth arall?	6
Sbectrwm Ymgysylltu	7
Gyda phwy ydyn ni'n ymgysylltu ac yn ymgynghori?	8
Egwyddorion Ymgysylltu:	9
Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru	9
Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol dros Blant a Phobl Ifanc	9
Siarter y Sefydliad Ymgynghori	9
Y Cyd-destun Cyfreithiol:	10
Darpariaethau statudol	10
Athrawiaeth disgwyliad dilys (cyfraith gyffredin)	10
Egwyddorion Gunning	11
Egwyddorion Cynnwys a Chydweithio - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	12
Deddf Cydraddoldeb 2010 a dyletswyddau sy'n benodol i Gymru	13
Atodiad 1: Egwyddorion Cenedlaethol â'r gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru	14
Atodiad 2: Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol dros Blant a Phobl Ifanc	15



Cyflwyniad

Trwy *TimCaerffili - Yn Well Gyda'n Gilydd*, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion y cymunedau sy'n ffurfio'n Bwrdeistref Sirol. Wrth sicrhau bod ein gwasanaethau cyhoeddus yn gydnerth ar gyfer y dyfodol, rydym yn cydnabod bod angen sicrhau bod ymgysylltiad effeithiol yn ganolog i'n penderfyniadau - cynnwys trigolion wrth ddylunio gwasanaethau lleol a'r materion sy'n effeithio arnynt.

Yn ogystal, rydym yn canolbwyntio ar wneud y berthynas rhwng y Cyngor a'r gymuned yn un well fyth - trigolion, busnesau, grwpiau

gwirfoddol a chymunedau. Mae gan Fwrdeistref Sirol Caerffili sector gwirfoddol a chymunedol fywiog ac ymgysylltiol, sy'n cynnig cyfle sylweddol i gynyddu cyfranogiad cymunedol i'r eithaf.

Mae'r fframwaith hwn yn amlinellu dull ar gyfer dealltwriaeth gyffredin i wella ymgysylltiad ymhellach. Mae'n pennu egwyddorion a safonau ar gyfer sut y bydd y Cyngor yn ymgysylltu - i greu disgwyliadau clir a chyffredinol ac ymgysylltu dwy ffordd sy'n galluogi canolbwyntio ar yr hyn y gellir ei gyflawni.



Ar gyfer pwy mae'r fframwaith hwn?

Mae'r fframwaith hwn ar gyfer pawb sydd â rôl i'w chwarae ac sydd am gymryd rhan mewn gwneud Bwrdeistref Sirol Caerffili yn lle mwy gwybodus a grymus i fyw ynddo. Ei fwriad yw cefnogi'r canlynol:

Staff trwy sicrhau eu bod nhw'n...

- gwybod sut i gynnal ymgynghoriadau ac ymgysylltiadau cadarn, effeithiol ac ystyrlon
- mabwysiadu dull cyson o ymdrin â'r broses ymgynghori ac ymgysylltu
- cydnabod amrywiaeth ein cymunedau ac ymgorffori hyn wrth gynllunio gweithgareddau ymgysylltu.



Cynghorwyr drwy...

- godi ymwybyddiaeth o'r egwyddorion cenedlaethol sy'n llywodraethu sut rydym yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â'n trigolion a'n rhanddeiliaid a
- sicrhau eu bod yn deall yr angen i ddefnyddio canlyniadau ymgysylltu â'r gymuned yn effeithiol i wella natur gwneud penderfyniadau a helpu i gryfhau'r berthynas sydd gan y Cyngor â'r bobl y mae'n ei wasanaethu.

Trigolion, cymunedau a rhanddeiliaid eraill drwy...

- ddangos ein dull o ymgysylltu
- gadael iddyn nhw wybod ein huchelgais o ran ein safonau a
- beth i'w ddisgwyl gennym a fydd yn galluogi mwy o ymdeimlad o berchnogaeth, gan gynnig rhagor o fewnbwn i bobl o ran y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Pwrpas

Y fframwaith:

- Tynnu sylw at bwysigrwydd ymgynghori ac ymgysylltu effeithiol a'r cysylltiad strategol clir â'r broses benderfynu
- Yn dangos y rôl allweddol sydd gan gymunedau ymgysylltiedig, wedi'u grymuso, wrth sicrhau bod ein gwasanaethau cyhoeddus yn gydnerth ar gyfer y dyfodol
- Rhoi diffiniad clir o ymgysylltu ac amlinellu'r sbectrwm ymgysylltu
- Amlinellu'r egwyddorion a'r safonau sy'n sail i ymgysylltu ac ymgynghori ystyrlon i alluogi dull cyson, tryloyw ac o ansawdd uchel o gynllunio ac ymgymryd ag ymgysylltu â'r gymuned
- Cyfeiriadau at gyngor ac arweiniad pellach ar sut i ymgynghori ac ymgysylltu yn unol â'r egwyddorion a'r safonau a amlinellir

CYSYLLTIADAU Â'R STRATEGAETH

Mae gan Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu 2020-2025 gysylltiadau uniongyrchol â nifer o ddogfennau strategol allweddol:

Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu 2019-2022

Ym mis Ionawr 2019, cymeradwyodd Cabinet y Cyngor Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu 2019-2022, sy'n amlinellu'r ffordd y byddwn yn mynd ati i sicrhau bod gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu yn addas at y diben ac yn helpu i gyflawni ein gweledigaeth.

Mae hefyd yn diffinio sut y byddwn ni fel sefydliad yn gwrando ac yn ymateb i'r hyn y mae ein cynulleidfa yn ei ddweud wrthym.

Mae'r Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn nodi bod ymgynghori ac ymgysylltu effeithiol yn hyrwyddo cyfathrebu dwy ffordd, sy'n sicrhau trigolion preswylwyr yn gallu dylanwadu ar y ffordd yr ydym yn llunio ac yn darparu ein gwasanaethau.

CYRRAEDD

Byddwn yn defnyddio ystod eang o sianeli i gyfathrebu â'n cynulleidfaoedd. Mae hyn yn cynnwys dulliau cymdeithasol, digidol a thraddodiadol.

YMGYSYLLTU

Byddwn yn sicrhau ein bod yn cyfathrebu mewn modd amserol, perthnasol, llawn gwybodaeth ac sy'n defnyddio iaith glir. Rydym am greu cynnwys sy'n ymgysylltu â'n holl gynulleidfaoedd.

TROSI

Byddwn yn gweithio'n galed er mwyn newid ymddygiadau ac agweddau trwy ddarparu gwybodaeth berthnasol fel gall ein cynulleidfaoedd gwneud dewisiadau gwybodus ac ystyriol.

Bydd y Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu hwn yn ategu un o'r amcanion allweddol a amlygwyd yn y Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu, ac yn helpu i hwyluso i'w gyflawni, sef:

"Hysbysu ac ymgysylltu â thrigolion, busnesau, ymwelwyr, partneriaid a rhanddeiliaid eraill ynghylch nodau a blaenoriaethau allweddol y Cyngor, y gwasanaethau y mae'n ei darparu a sut y gallant gymryd rhan wrth wneud penderfyniadau."

Tim Caerffili - Yn Well Gyda'n Gilydd (Strategaeth Drawsnewid)

Mae rhaglen drawsnewid *Tim Caerffili* yn ymwneud ag ail-lunio'r Cyngor ar gyfer y dyfodol a gwneud pethau'n wahanol i ddiogelu'r gwasanaethau sy'n angenrheidiol ac sy'n cael eu gwerthfawrogi. Mabwysiadwyd model gweithredu "awdurdod cyfan" newydd gan y Cyngor ym mis Mehefin 2019 i sicrhau Bwrdeistref Sirol Caerffili gydnerth ar gyfer y dyfodol gyda chyfathrebu ac ymgysylltu yn chwarae rhan bwysig yn yr agenda drawsnewid.


Pwrpas Tim Caerffili - Yn Well Gyda'n Gilydd yw:

"Creu gallu a rhagwelediad i ddatblygu atebion i rai o heriau mwyaf y Fwrdeistref Sirol, gan sicrhau bod y Cyngor yn deall ac yn ymateb i anghenion a blaenoriaethau newidiol ein cymunedau".

Mae ymgysylltu â'r gymuned yn effeithiol ynddo'i hun yn elfen strategol ym model gweithredu *Tim Caerffili - Yn Well Gyda'n Gilydd*. Un o ganlyniadau'r dull newydd hwn fydd cael perthynas weithiol gryf gyda'n cymunedau a'n partneriaid, i wneud y defnydd gorau o'n cyd-adnoddau i sicrhau Bwrdeistref Sirol gydnerth ar gyfer y dyfodol.

Cam allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r elfen hon o'r strategaeth oedd datblygu Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu sy'n cefnogi cymunedau wedi'u grymuso i ddod ar y daith hon gyda ni.

Mae'r Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu hwn, felly, wedi'i ddatblygu i hwyluso ymgynghori ac ymgysylltu mwy effeithiol â chymunedau wrth inni symud ymlaen i ail-lunio Cyngor Bwrdeistref Sir Caerffili. Bydd ymgysylltu effeithiol yn ein galluogi i ddeall anghenion ein cymunedau wrth inni wneud penderfyniadau anodd ac ystyried sut y byddwn yn darparu gwasanaethau yn wahanol yn y dyfodol.



Cymunedau wedi'u Hymbweru: Cefnogi Capasiti Cymunedol a Harneisio Cyfalaf Cymdeithasol

Bydd rôl cymunedau grymus, gwydn yn y daith drawsnewid yn hollbwysig. Mae'r daith yn gyfle i groesawu newid a datblygu gwasanaethau Cyngor gyda chefnogaeth ein cymunedau, er budd pawb.

DARLLEN PELLACH

Dolen i Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu 2019-2022

Tim Caerffili - Yn Well Gyda'n Gilydd (Strategaeth Drawsnewid CBS Caerffili)

<https://www.caerffili.gov.uk/tc-cym/>

Beth ydyn ni'n ei olygu wrth Ymgysylltu?

Defnyddir y geiriau ymgysylltu â'r 'gymuned', 'cyhoedd' neu 'ddinasyddion' yn gyfnewidiol gan lawer, yn aml i olygu'r un peth. Mae Cyngor Caerffili eisoes wedi mabwysiadu'r diffiniad ymgysylltu canlynol:

"Mae ymgysylltu yn golygu unrhyw beth a wnawn sy'n hysbysu dinasyddion am yr hyn yr ydym yn ei wneud neu'n cynnwys dinasyddion ym mhroses gwneud penderfyniadau'r Cyngor."

Mae cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol yn hollbwysig i daith drawsnewid y Cyngor, a thrwy broses barhaus o ddeialog rhwng y Cyngor a'n cymunedau trwy 'Trafodaeth Caerffili' y byddwn yn anelu at gyflawni hyn.

Trwy'r ddogfen hon ein nod yw nodi achos ysgogol dros ymgysylltu sy'n annog partneriaeth o gydweithredu rhwng cymunedau a'r Cyngor, lle gall y Cyngor alluogi cymunedau i wneud ychydig mwy drostynt eu hunain.

Wrth alluogi'r broses hon, rydym o'r farn bod yr egwyddorion pwysig canlynol o arwyddocâd penodol:

- Byddwn yn gwrando ac yn deall
- Bydd pobl Bwrdeistref Sirol Caerffili yn helpu i lywio a llunio'r penderfyniadau a wnawn - ac yn ei dro byddwn yn rhoi gwybodaeth i bobl
- Byddwn yn gynhwysol ac yn gweithredu gyda phwrpas
- Byddwn yn gwneud y gorau o'r hyn sydd eisoes yn bodoli yn ein cymunedau

Trwy'r dull cytunedig hwn byddwn yn:

- Grymuso trigolion lleol i gael mwy o ddylanwad dros y materion sy'n effeithio arny'n nhw
- Cynyddu a chryfhau rôl cymunedau yn y ffordd yr ydym yn byw, gweithio ac ymweld â Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Yn ein helpu ni i ddeall anghenion ein cymunedau sydd, yn eu tro, yn helpu i sicrhau bod y gwasanaethau rydyn ni'n

eu darparu yn diwallu'r anghenion hynny a bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn unol â blaenoriaethau cytunedig

- Sicrhau bod pobl yn cymryd rhan yn y broses ddemocrataidd ac yn galluogi cymunedau i gael mwy o ddylanwad ar faterion sy'n effeithio arnynt
- Cefnogi cymunedau i weithredu trwy eu helpu i nodi anghenion a'u cefnogi i ddatblygu atebion a arweinir gan y gymuned
- Cyflawni ein dyletswyddau statudol

Dylunio'r modd rydym yn ymgysylltu - a oes angen i mi ymgysylltu, ymgynghori neu wneud rhywbeth arall?

Er mwyn sicrhau bod ymgysylltu yn cael ei gynnal mewn ffordd systematig a chyson, mae'n bwysig bod yn glir pa lefel o ymgysylltu sy'n briodol mewn amgylchiad penodol a chynllunio a gweithredu prosesau ymgysylltu yn ofalus ar sail yr amgylchiad hwnnw.

Ar adegau, gall ymgysylltu ymwneud â hysbysu yn unig, ond ar adegau eraill bydd ymgysylltu yn cynnwys cyfuniad o ddarparu gwybodaeth a chasglu, ymgynghori, adborth a gwerthuso a fydd yn bwydo i'r broses benderfynu ar gam priodol. Gan gydnabod bod gwahanol lefelau ymgysylltu yn briodol mewn gwahanol amgylchiadau, dylid ystyried yn ofalus y dull a fabwysiadwyd mewn perthynas â:

- pwrpas a chanlyniad arfaethedig yr ymgysylltiad
- y materion sy'n cael sylw
- y cam yn y cylch cynllunio prosiect lle mae ymgysylltu yn digwydd
- y rhanddeiliaid dan sylw / y rhai rydyn ni'n ymgysylltu â nhw - gan gydnabod bod gan wahanol grwpiau ac unigolion wahanol anghenion a hoffterau

Yn y ddolen ganlynol, mae cyfarwyddyd wrth benderfynu ai ymgynghori, ymgysylltu neu wneud rhywbeth arall sydd ei angen:

www.local.gov.uk/sites/default/files/documents/Do%20I%20need%20to%20consult.pdf

Sbectrwm Ymgysylltu

Mae Sbectrwm Cyfranogiad Cyhoeddus y Gymdeithas Ryngwladol yn amlinellu pum lefel o ymgysylltu ar draws continwwm sy'n disgrifio graddfa gynyddol o ymgysylltiad, cyfranogiad a dylanwad yn y broses ymgysylltu. Gellir defnyddio'r sbectrwm i helpu i bennu lefel y dylanwad sy'n ofynnol ac mae'n pennu'r math o ymrwymiad sy'n

angenrheidiol er mwyn sicrhau tryloywder. Gall hefyd ddarparu man cychwyn ar gyfer pennu'r dulliau ymgysylltu mwyaf priodol.

Mae'r diagram isod yn amlinellu pum lefel o ymgysylltiad ac yn nodi lefelau cynyddol o effaith gyhoeddus a lefelau dylanwad cymunedol dros benderfyniadau ar bob lefel, mae ein nodau a'n haddewidion wedi'u nodi.

Cynyddu lefel yr effaith ar y cyhoedd

Lefel dylanwad y gymuned ar benderfyniadau

	Hysbysu	Ymgynghori	Cynnwys	Cydweithio	Galluogi
NOD	Darparu gwybodaeth gytbwys a gwrthrychol i'r cyhoedd er mwyn helpu iddynt ddeall problemau, dewisiadau amgen, cyfleoedd a/neu ddatrysiadau	Cael adborth y cyhoedd ar ddadansoddiadau, dewisiadau amgen a/neu benderfyniadau	Gweithio'n uniongyrchol gyda'r cyhoedd trwy gydol y broses er mwyn sicrhau bod pryderon a dyheadau'r cyhoedd yn cael eu deall a'u hystyried yn gyson	Bod yn gymar i'r cyhoedd ym mhob agwedd o'r penderfyniad gan gynnwys datblygu dewisiadau amgen a nodi'r datrysiad dewisol.	Rhoi'r penderfyniadau terfynol a/neu gyllidebau datganoledig yn nwylo'r cyhoedd.
ADDEWID	Byddwn yn eich hysbysu.	Byddwn yn eich hysbysu, yn gwrandao ar bryderon, a'u cydnabod, ac yn darparu adborth ar sut y dylanwadodd mewnbwn y cyhoedd ar y penderfyniad.	Byddwn yn gweithio gyda chi er mwyn sicrhau bod eich pryderon a'ch dyheadau yn cael eu hadlewyrchu yn uniongyrchol yn y dewisiadau amgen a ddatblygir a darparu adborth ar sut y dylanwadodd mewnbwn y cyhoedd ar y penderfyniad.	Byddwn yn troi atoch chi am gyngor ac arloesedd uniongyrchol wrth ffurfio datrysiadau ac yn ymgorffori'ch cyngor a'ch argymelliadau yn y penderfyniadau i'r graddau mwyaf posibl.	Byddwn yn gweithredu'r hyn rydych chi'n penderfynu.

Gyda phwy ydyn ni'n ymgysylltu ac yn ymgynghori?

Pan fyddwn yn siarad am ymgysylltu â'n cymunedau a'n rhanddeiliaid rydym yn ymrwmo i ymgysylltu, fel y bo'n briodol, â:

- Trigolion - pobl o bob rhan o'r Fwrdeistref Sirol ac o bob cymuned ac o bob oed, yn gwneud ymdrech benodol i annog y rhai nad ydyn nhw'n ymgysylltu ar hyn o bryd / anaml y clywir ganddynt gan gynnwys:
 - grwpiau cymunedol a chlybiau gan gynnwys y rhai ar ein paneli amrywiol, grwpiau cymunedol, gwirfoddol a grwpiau buddiannau arbennig
 - defnyddwyr gwasanaethau penodol y Cyngor
 - grwpiau sy'n agored i niwed a'r rheini â nodweddion gwarchodedig fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb (2010) a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (Cymru)
 - plant a phobl ifanc gan gynnwys y rhai ar y Fforymau leuenctid ac lau

- Gweithwyr y Cyngor
- Undebau llafur perthnasol
- Perchnogion busnes
- Y rhai sy'n ymweld, yn gweithio neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y Fwrdeistref Sirol
- Ein cynrychiolwyr a etholwyd yn ddemocrataidd
- Cyngorau Tref a Chymuned
- Aelodau Cynulliad Lleol ac Aelodau Seneddol
- Sefydliadau partner
- Fforymau busnes
- Comisiynwyr Cymru (Plant, Iaith Gymraeg, Pobl Hŷn a Chenedlaethau'r Dyfodol)
- Fforymau pwnc penodol
- Unrhyw gorff neu grŵp arall sydd â diddordeb yng ngwaith yr awdurdod a lles yr ardal yn y dyfodol



Egwyddorion Ymgysylltu

Mae'r Cyngor yn gweithredu o fewn Egwyddorion Llywodraethu sy'n Canolbwyntio ar Ddinasyddion Llywodraeth Cymru, gan roi'r dinasyddion wrth galon y gwaith a chanolbwyntio ar eu hanghenion a'u profiadau.

Wrth ymgysylltu â thrigolion a rhanddeiliaid, mae'n bwysig bod yr egwyddorion yn arwain y broses ymgysylltu fel ei bod yn cael ei chyflawni mewn modd ystyrlon a thryloyw.

Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru

Yn 2011, mabwysiadodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili **Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru** fel dogfen arweiniol ar gyfer ein holl weithgareddau ymgysylltu (Atodiad 1). Cefnogir yr egwyddorion hyn yn "Y Pecyn Cymorth Gwerthuso - Gwerthuso arferion ymgysylltu o'u cymharu â'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu a'r Cyhoedd yng Nghymru" sy'n amlinellu proses gyfranogi pedwar cam i werthuso gweithgareddau ymgysylltu mewn perthynas â'r Egwyddorion Cenedlaethol.



Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol dros Blant a Phobl Ifanc

Mae'r Cyngor hefyd yn cyflawni gofynion y **Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol dros Blant a Phobl Ifanc** (Atodiad 2).

Siarter y Sefydliad Ymgynghori

Mae'r Sefydliad Ymgynghori yn darparu siarter, sy'n amlinellu saith agwedd allweddol ar ymgynghori da. Dylai'r saith cydran hyn lywio prosesau gwneud penderfyniadau cyn, yn ystod ac ar ôl y broses ymgynghori.

Gallant hefyd weithredu fel canllaw ar gyfer mathau eraill o ymgysylltu.

- 1. Gonestrwydd:** Rhaid i fwriadau fod yn onest, a chydphaerodrwydd gwirioneddol i wrando a chael eu dylanwadu.
- 2. Gwelededd:** Dylai fod ymdrech wirioneddol i wneud pawb sydd â hawl i gymryd rhan yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd.
- 3. Hygyrchedd:** Mae angen mynediad rhesymol, gan ddefnyddio dulliau a sianeli priodol a darparu ar gyfer grwpiau anodd eu cyrraedd.
- 4. Tryloywder:** Mae angen i'r pethau a gyflwynir gael eu gwneud yn gyhoeddus a datgelu data, oni bai bod rheswm penodol dros eu heithrio.
- 5. Datgeliad:** Dylai'r Cyngor ddatgelu'r holl ddeunydd a chyd-destun perthnasol, ac o ganlyniad, dylai trigolion ddatgelu'r ystod lawn o farn leol.
- 6. Tegwch:** Rhaid i asesiadau a dehongliadau ymgynghoriadau fod yn wrthrychol. Rhaid i benderfyniadau gynrychioli barn gyffredinol y bobl.
- 7. Cyhoeddiad:** Mae gan gyfranogwyr hawl i dderbyn adborth ar yr allbwn terfynol, ac ar ganlyniad y broses yn y pen draw.



DARLLEN PELLACH

www.local.gov.uk/sites/default/files/documents/The%20TCI%20Charter_2.pdf

Y Cyd-destun Cyfreithiol

Mae'r Sefydliad Ymgynghori yn nodi dau faes i ganolbwyntio arnynt wrth benderfynu a oes angen i chi ymgynghori - darpariaethau statudol ac athrawiaeth disgwyliad dilys (cyfraith gyffredin).

Darpariaethau statudol

Mae darpariaethau statudol yn ofynion cyfreithiol sy'n nodi bod yn rhaid i ymgynghoriad ddigwydd. Maent yn bodoli mewn sawl maes allweddol - iechyd, yr amgylchedd a chydaddoldeb.

Cydraddoldeb: Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus roi "sylw dyledus" i amrywiaeth o amcanion Cydraddoldeb (Deddf Cydraddoldeb 2010, Adran 149) ac o ganlyniad rhaid cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb i ddangos bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn gwbl ymwybodol o'r effaith y gall newidiadau eu cael ar randdeiliaid. Atgyfnerthwyd y cysyniad o "sylw dyledus" yn 2012 yn ystod yr adolygiad o Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus sy'n...

"ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol bobl wrth gyflawni eu gweithgareddau".

Athrawiaeth disgwyliad dilys (cyfraith gyffredin)

Yn y bôn, lle mae pobl wedi dod i ddisgwyl yn gyfreithlon broses ymgynghori, er enghraifft, gyda thoriadau yng nghyllideb awdurdodau lleol, mae sail dros adolygiad barnwrol pe na chynhelir ymgynghoriad cyhoeddus. Yn yr un modd, rhaid cynnal ymgynghoriad mewn dull priodol pe dewisir dechrau ar un (p'un a oes gofyniad cyfreithiol yn bodoli ar ei gyfer ai peidio). Mae hyn yn rhan o sicrhau bod y broses ymgynghori yn parhau i fod yn un deg.

Mae hyn yn prysur ddod yn agwedd bwysicaf ar gyfraith ymgynghori. Mae'r disgwyliad dilys yn berthnasol:

- pan fu addewid clir o ymgynghori
- lle mae canllawiau neu bolisiau swyddogol yn awgrymu addewid i weithredu mewn ffordd benodol
- lle mae budd yn cael ei dynnu'n ôl gydag effeithiau sylweddol i'w hystyried
- lle byddai natur y berthynas yn creu annhegwch pe bai ymgynghori annigonol.





Egwyddorion Gunning

Os penderfynwyd bod angen ymgynghori (yn hytrach na rhyw fath arall o ymgysylltu), mae'n bwysig cadw at yr egwyddorion canlynol i sicrhau cydymffurfiaid cyfreithiol.

Mae'r cynigion yn dal i fod ar gam ffurfiannol.

Nid yw'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau wedi gwneud penderfyniad terfynol eto, nac wedi'i bennu ymlaen llaw.

Mae digon o wybodaeth i roi 'ystyriaeth ddeallus'.

Rhaid i'r wybodaeth a ddarperir ymwneud â'r ymgynghoriad a rhaid iddi fod ar gael, yn hygyrch ac yn hawdd ei dehongli er mwyn i ymgynghorwyr ddarparu ymateb gwybodus.

Mae digon o amser i ystyried ac ymateb.

Rhaid bod digon o gyfle i ymgynghorwyr gymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Nid oes amserlen benodol ar gyfer ymgynghori, er gwaethaf y cyfnod ymgynghori deuddeg wythnos sy'n gyffredin iawn, oherwydd gall yr amser a roddir i'r ymgynghorydd ymateb ddibynnu ar bwnc a maint effaith yr ymgynghoriad.

Rhaid rhoi 'ystyriaeth wybyddol' i ymatebion yr ymgynghoriad cyn gwneud penderfyniad.

Dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau allu darparu tystiolaeth eu bod wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad.



DARLLEN PELLACH

www.local.gov.uk/sites/default/files/documents/The%20Gunning%20Principles.pdf

Mae'r Ganolfan Arferion hefyd yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol ar Egwyddorion Gunning ac Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

www.eiapractice.wales.nhs.uk/hafan

Egwyddorion Cynnwys a Chydweithio - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

O ran y cyd-destun ehangach, mae'r Fframwaith hwn hefyd yn cefnogi'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswydd o dan **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**. Mae'r Ddeddf yn ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ac mae'n ei gwneud yn ofyniad bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau, yn gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd ac yn atal problemau parhaus - fel tlodi, anghydraddoldeb iechyd a newid yn yr hinsawdd.

Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd datblygu gynaliadwy ar waith sy'n amlinellu sut y dylai sefydliadau fynd ati i gyflawni eu cyfrifoldebau o dan y Ddeddf. Mae yna bum ffordd o weithio y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus feddwl amdanynt i ddangos

eu bod wedi defnyddio'r egwyddorion datblygu cynaliadwy.

Yng nghyd-destun y Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu hwn, mae 2 ohonynt yn hanfodol, yr egwyddorion "Cynnwys" a "Chydweithio":

"Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni nodau llesiant a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei wasanaethu."

"Cydwethio ag unrhyw berson arall a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion."





Deddf Cydraddoldeb 2010 a dyletswyddau sy'n benodol i Gymru

Ategir y Ddeddf Cydraddoldeb gan set benodol o ddyletswyddau yng Nghymru, ac un ohonynt yw cynnwys pobl y mae'n eu hystyried yn gynrychioliadol o'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig gwahanol sydd â diddordeb yn y ffordd y mae'r awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau.

Bydd ymgysylltu yn helpu i wella canlyniadau, er enghraifft drwy wneud y canlynol:

- nodi anghenion penodol, patrymau anfantais a chysylltiadau gwael rhwng grwpiau
- deall y rhesymau dros anafanteision, cyfraddau cyfranogi isel a chysylltiadau gwael
- dylunio mentrau i ddiwallu anghenion a goresgyn rhwystrau
- pennu blaenoriaethau
- dadansoddi effaith mentrau ar bobl â nodweddion gwarchodedig
- monitro a gwerthuso mentrau, polisïau a rhaglenni.

DARLLEN PELLACH

futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/01/wfg-essentials-guide-cy.pdf
www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/engagement-and-equality-duty-guide-listed-public-authorities-wales



Atodiad 1: Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru**1 Cynllunnir yr ymgysylltu'n effeithiol i wneud gwahaniaeth**

Mae ymgysylltu'n rhoi gwir gyfle i ddylanwadu ar bolisiau, ar gynllunio gwasanaethau ac ar gyflwyno gwasanaethau o gyfnod cynnar.

2 Annog a galluogi pawb a effeithir i gymryd rhan, os ydynt yn dewis hynny

Cynhwysir y bobl a effeithir gan fater neu newid mewn cyfleoedd i ymgysylltu fel unigolion neu fel rhan o grŵp neu gymuned, ac mae eu safbwyntiau'n cael eu parchu a'u gwerthfawrogi.

3 Cynllunnir a chyflwynir yr ymgysylltu mewn ffordd amserol a phriodol

Mae'r broses ymgysylltu'n glir ac yn cael ei chyfathrebu i bawb mewn ffordd hawdd i'w deall ac o fewn amserlen resymol. Hefyd, defnyddir y dull/iau mwyaf addas ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan.

4 Gweithio gyda sefydliadau partner perthnasol

Dylai sefydliadau gyfathrebu â'i gilydd a chydweithio lle bo modd er mwyn sicrhau bod amser pobl yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon.

5 Ni fydd unrhyw jargon yn rhan o'r wybodaeth a ddarperir a bydd yn briodol ac yn hawdd i'w deall

Mae pobl mewn sefyllfa dda i gymryd rhan yn y broses ymgysylltu oherwydd mae gwybodaeth berthnasol sydd wedi'i haddasu i ddiwallu eu hanghenion ar gael iddynt yn hwylus.

6 Ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan

Gall pobl ymgysylltu'n hawdd oherwydd mae unrhyw rwystrau i wahanol grwpiau o bobl yn cael eu datgan ac yn cael sylw.

7 Galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol

Dylai'r prosesau ymgysylltu geisio datblygu sgiliau, gwybodaeth a hyder y cyfranogwyr i gyd.

8 Rhoddir yr adnoddau a'r gefnogaeth briodol i ymgysylltu er mwyn iddo fod yn effeithiol

Darperir hyfforddiant, cyfarwyddyd a chefnogaeth briodol er mwyn galluogi'r cyfranogwyr i gyd i ymgysylltu'n effeithiol, yn cynnwys cyfranogwyr cymunedol a staff.

9 Mae pobl yn cael gwybod beth yw effaith eu cyfraniad

Rhoddir adborth amserol i'r cyfranogwyr i gyd am y safbwyntiau a fynegwyd ganddynt a'r trafodaethau a'r camau gweithredu a gafwyd o ganlyniad; dylai dull a ffurf yr adborth roi ystyriaeth i hoffterau'r cyfranogwyr.

10 Dysgu a rhannu gwersi i wella'r broses o ymgysylltu

Dylid monitro a gwerthuso profiadau pobl o'r broses ymgysylltu er mwyn mesur ei llwyddiant o ran ymgysylltu pobl ac effeithiolrwydd eu cyfraniad; dylid rhannu'r gwersi a ddysgir a'u defnyddio mewn ymgysylltu yn y dyfodol.

Cafodd yr egwyddorion hyn eu datblygu gan Cyfranogaeth Cymru trwy weithio gyda TPAS Cymru, o dan arweiniad partneriaeth Cyfranogaeth Cymru. Cawsant eu cymeradwyo gan Brif Weinidog Cymru, Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC ar ran Llywodraeth Cymru. Mae arweiniad pellach ar yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gael o www.participationcymru.org.uk

Atodiad 2: Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol dros Blant a Phobl Ifanc

“Mae gan blant hawl i roi eu barn ynghylch beth ddylai ddigwydd, pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy’n effeithio arnyn nhw, ac i gael sylw i’w barn.”

Erthygl 12: Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CCUHP)

		Mae hyn yn golygu:	Byddwn ni:
1	Gwybodaeth	Mae gennych chi’r hawl i wybodaeth sy’n hawdd ei deall ac sy’n gadael i chi wneud penderfyniad gwybodus.	- Yn darparu gwybodaeth o safon dda, yn glir ac yn hawdd mynd ati. - Yn rhoi gwybod i chi pwy sy’n mynd i wrando a gadael i chi wybod pa wahaniaeth gallai’ch cyfranogiad chi ei wneud.
2	Chi biau’r dewis	Mae gennych chi’r hawl i ddewis cymryd rhan a gweithio ar bethau sy’n bwysig i chi.	Yn rhoi digon o gefnogaeth ac amser i chi ddewis a ydych chi eisiau cymryd rhan.
3	Dim gwahaniaethu	Mae plant a phobl ifanc i gyd yn wahanol ac mae ganddyn nhw’r hawl i gael eu trin yn deg.	- Yn herio gwahaniaethu. - Yn cynnig amrediad o gyfleoedd a chefnogaeth i fodloni anghenion plant a phobl ifanc.
4	Parch	Mae gennych chi’r hawl i leisio barn. Mae’ch safbwyntiau chi’n bwysig a chânt eu parchu.	- Yn gwrando ar eich barn, eich profiadau a’ch syniadau ac yn eich cymryd chi o ddifri. - Yn gweithio gyda chi ar bethau rydych chi’n dweud eu bod nhw’n bwysig. - Yn gwerthfawrogi beth sydd gennych chi i’w gynnig.
5	Bod ar eich ennill	- Mae gennych chi’r hawl i ddysgu a bod y gorau y gallwch chi fod. - Bydd gennych chi gyfleoedd i weithio gyda phobl eraill a gwneud gwahaniaeth. - Rydyn ni eisiau i chi gymryd rhan mewn profiadau positif.	- Yn gweithio gyda chi mewn ffordd ddiogel, hwyl a phleserus. - Yn manteisio i’r eithaf ar beth rydych chi’n ei wybod ac yn gwneud pethau sy’n meithrin eich hyder a’ch sgiliau chi.
6	Adborth	Mae gennych chi’r hawl i wybod pa wahaniaethau rydych chi wedi eu gwneud a sut mae rhywun wedi gwrando ar eich syniadau chi.	- Bob amser yn sicrhau eich bod chi’n cael adborth o fewn amser sydd wedi’i gytuno. - Yn dweud wrthyh chi sut mae’ch syniadau wedi cael eu defnyddio a pham. - Yn dweud wrthyh chi beth sy’n digwydd nesaf.
7	Gweithio’n well drosodd chi	Dylai’r bobl sy’n gwneud penderfyniadau sy’n effeithio ar blant a phobl ifanc roi hawliau plant yng nghanol popeth maen nhw’n ei wneud.	- Yn gweithio gyda chi ac yn dysgu sut i wneud pethau’n well. - Yn gwneud yn siŵr bod eich barn yn gwneud gwahaniaeth i’r ffordd rydyn ni’n gwneud cynlluniau a phenderfyniadau.



TRAFODAETH CAERFFILI
THE CAERPHILLY CONVERSATION

